# Telerau ac Amodau



Mae'r swydd hon yn ddi-dâl. Bydd y treuliau priodol yn cael eu talu yn unol â pholisi Undeb y Myfyrwyr.  Bydd eich tymor yn y rôl yn flwyddyn o hyd, o 1 Gorffennaf 2023.

Efallai y cewch chi eich diswyddo o'r rôl drwy'r broses a amlinellir yn Erthyglau'r Gymdeithas.

Cynhelir cyfarfodydd mor gyson a sydd ei angen ar gyfer materion y Bwrdd, ond lleiafswm o bedwar gwaith bob blwyddyn academaidd. Mae pwyllgorau hefyd yn cwrdd oddeutu pedwar gwaith y flwyddyn, ac mae disgwyl i Ymddiriedolwyr Myfyrwyr fod yn aelod o un Pwyllgor o leiaf. Bydd un Ymddiriedolwr Myfyriwr hefyd yn aelod o'r Bwrdd Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Undeb Caerdydd Cyfyngedig, cwmni masnachu yr Undeb.

O dan Deddf Elusennau 2008, rydych chi yn anghymwys i fod yn Ymddiriedolwyr Myfyrwyr os:-

- Rydych chi yn iau na 18 mlwydd oed
- Rydych chi wedi eich cael yn euog o drosedd sy'n ymwneud ag anonestrwydd a thwyll na ystyrid ei fod wedi darfod yn gyfreithiol.
- Rydych yn fethdalwr heb ei ryddhau
- Rydych chi wedi cael eich diswyddo fel ymddiriedolwr elusen gan Lys neu gan Gomisiwn yr Elusennau
- Rydych chi wedi cael eich diarddel o dan y Ddeddfwriaeth Diarddeliad Cyfarwyddwyr Cwmnïau
- Rydych chi wedi gwneud trefniadau gydag unrhyw gredydwyr ac nid ydych chi wedi cael eich rhyddhau

## AMSERLEN RECRIWTIO

- Ceisiadau'n cau 9:00yb Dydd Mercher 5 Ebrill 2023.
- Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach ar rôl yr ymddiriedolwyr yn y Comisiwn Elusennol neu Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol (NCVO).